



Animal &
Plant Health
Agency

Diweddaru Ffioedd Hawliau Bridwyr Planhigion a Rhestrau o Amrywogaethau ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon

Papur Gwybodaeth

17 Hydref 2022

Cyflwyniad

Mae'n bolisi gan Lywodraeth y DU i godi tâl am lawer o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n gyhoeddus. Y dull safonol yw pennu ffioedd i adennill costau cyflenwi gwasanaethau yn llawn. Mae hyn yn rhyddhau'r trethdalwr o gostau, fel eu bod yn cael eu hysgwyddo'n briodol gan ddefnyddwyr sy'n elwa o wasanaeth. Mae hyn yn caniatáu dosbarthu adnoddau cyhoeddus yn fwy teg ac yn galluogi llai o fenthyca a gwariant cyhoeddus.

Mae gwasanaethau Amrywogaethau Planhigion a Hadau, gan gynnwys Rhestrau o Amrywogaethau ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon (GB/NI VL) a Hawliau Bridwyr Planhigion (PBR), yn gweithredu yn unol â'r egwyddor hon o adennill costau llawn. Yn unol â pholisi'r llywodraeth, mae ffioedd GB/NI VL a PBR yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u haddasu i sicrhau na fydd gormod neu ddim digon o gostau'n cael eu hadennill (Rheoli Arian Cyhoeddus, Trysorlys EM, Mawrth 2022).

Mae'r newidiadau hyn yn fesurau ar unwaith i sicrhau bod costau llawn y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu hadlewyrchu yn y ffioedd. Bwriedir cynnal adolygiad ehangach o ffioedd GB/NI VL a PBR yn y DU yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn ystyried y newidiadau yn swmp y ceisiadau yn y DU a'r gwaith yn y meysydd hyn.

Daw'r newidiadau i rym o 9 Ionawr 2023.

Newidiadau i Ffioedd GB/NI VL a PBR

Hawliau Bridwyr Planhigion (PBR, hawliau eiddo deallusol (IP))

Gelwir hawliau eiddo deallusol gwirfoddol dros amrywogaethau planhigion yn y DU yn hawliau bridwyr planhigion (PBR). Mae PBR yn galluogi bridwyr i gasglu breindaliadau ar amrywogaethau newydd a rheoli hadau a deunydd lluosogi. Maent ar gael i bob rhywogaeth o blanhigion ac maent yn hanfodol i lwyddiant economaidd bridio planhigion.

Mae deddfwriaeth PBR yn cael ei sefydlu yn y DU. Mae Rheolydd y DU, a benodir o dan Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997, yn gyfrifol am weithrediad Swyddfa Hawliau Amrywogaethau Planhigion (PVRO) wrth weinyddu PBR. Mae'r PVRO yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng pedair gweinyddiaeth y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) ac mae'n cynnwys Rheolydd y DU, Dirprwy Rheolydd y DU, ac aelodau o dîm APHA sy'n gyfrifol am weinyddu a chyflwyno Hawliau Bridwyr Planhigion y DU. Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol ar Restrâu a Hadau (NLSC) yn cynghori'r PVRO ac yn gwneud argymhellion iddo. Rheolydd y DU sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau sy'n ofynnol ar gyfer rhoi PBR y DU.

Ar ôl ymadael â'r UE, nid yw deddfwriaeth Hawliau Amrywogaethau Planhigion Cymuned yr UE (CPVR) yn berthnasol mwyach yn y DU. Bydd perchennog CPVR a roddwyd cyn diwedd mis Rhagfyr 2020 yn berchen ar PBR cyfatebol yn y DU yn awtomatig. Ar gyfer PBR newydd, mae angen i fusnesau wneud cais yn y DU ac yn yr UE er mwyn cael yr un cwrpas daearyddol.

Cofrestru Amrywogaethau

Ar gyfer y prif gnydau bwyd a phorthiant, rhaid cofrestru amrywogaethau planhigion yn gyntaf ar y GB/NI VL cyn y gellir eu marchnata'n gyfreithlon yn y DU. Mae gwasanaethau GB/NI VL a PBR yn sicrhau hunaniaeth a nodweddion ansawdd amrywogaethau a gaiff eu marchnata, yn ysgogi gwella cynydu amaethyddol ac yn gwarchod hawliau eiddo deallusol bridwyr sy'n buddsoddi adnoddau i ddatblygu amrywogaethau newydd. Er mwyn marchnata hadau a deunydd lluosogi ym marchnadoedd Prydain Fawr, Gogledd Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd, ar ôl ymadael â'r UE, rhaid i fusnesau wneud cais i restru'r amrywogaeth ar y GB/NI VL, ac ar Restr Genedlaethol aelod-wladwriaeth yn yr UE.

Newidiadau i Ffioedd Hawliau Bridwyr Planhigion a Rhestrau o Amrywogaethau

Caiff y Rheolydd, yr Awdurdodau Priodol (Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig), Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru) a DAERA (Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig), godi ffioedd a ysgwyddir yn

rhesymol at ddibenion y Rheoliadau hyn, fel y nodir yn Rheoliad 4 o [Reoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion \(Enwi a Ffioedd\) 2006](#), Rheoliad 10 o [Reoliadau Hadau \(Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau\) 2001](#), a Rheoliad 11 o [Reoliadau Hadau \(Rhestrau o Amrywogaethau\) \(Gogledd Iwerddon\) 2020](#) yn y drefn honno. APHA (yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (un o Asiantaethau Defra)) sy'n gweinyddu'r system GB/NI VL ar ran y Rheolydd, yr Awdurdodau Priodol a DAERA.

Dyma'r newidiadau i'r ffioedd:

(1) Cynyddu'r ffi weinyddu ar gyfer GB/NI VL a PBR.

Mae APHA wedi gweld cynnydd sylweddol yn swmp y ceisiadau a'r gwaith yn y meysydd hyn. Felly, mae angen cynyddu'r ffi weinyddol ar y cyd rhwng GB/NI VL a PBR (gweler Tabl 4) er mwyn adennill costau (cymwys) yn llawn yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi ar reoli arian cyhoeddus, ac osgoi adennill gormod neu ddim digon o gostau.

Mae'r gost i APHA brosesu ceisiadau a gweinyddu rhestrau a hawliau gydol oes amrywogaeth yn seiliedig ar gyfraddau codi ffioedd cymeradwy APHA Trysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer y graddau perthnasol wedi'u lluosu â'r amser a gymerir (gweler Tabl 1). Mae costau prosesu Shared Services Connect Limited (SSSL) a chostau NIAB ar gyfer cynnal a chadw VTS (y system gyfrifiadurol) wedi'u cynnwys hefyd. Amcangyfrif o'r gost ar gyfer prosesu swmp disgwylidig y ceisiadau yw £845,002 (gweler Tabl 2). Mae'r amcangyfrif o'r gost ar gyfer prosesu swmp disgwylidig y ceisiadau wedyn yn cael ei rannu ag amcangyfrif o swmp y ceisiadau i bennu'r ffi weinyddu newydd ar y cyd rhwng GB/NI VL a PBR (gweler Tabl 3).

Costau Prosesu SSCL

Rhodddwyd costau prosesu SSCL ar waith ym mis Ionawr 2021. SSCL yw'r sefydliad sy'n codi anfonebau ac yn derbyn taliadau ar ran APHA (am gost o £12.50 y trafodiad). Yn y gorffennol, roedd costau prosesu SSCL yn cael eu cynnwys o dan orbenion cyffredinol y staff ond maent bellach wedi'u costio'n uniongyrchol.

Costau Cynnal a Chadw VTS NIAB

Mae NIAB yn codi tâl sefydlog am gynnal a chadw cronfa ddata gyfrifiadurol (VTS) GB/NI VL a PBR bob blwyddyn.

Tabl 1. Tabl i ddangos cyfradd codi tâl a gymeradwywyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi fesul gradd wedi'i luosi â % yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau a gweinyddu rhestrau a hawliau gydol oes amryogaeth.

Gradd	Cyfradd Codi Tâl (£)	Nifer y Staff	% o Amser GB/NI VL	% o Amser PBR	FTE GB/NI VL	Cost GB/NI VL (£)	FTE PBR	Cost PBR (£)
AO	69,588	1	45	35	0.45	31,314	0.35	24,356
EO	74,550	6.6	75	0	4.95	369,023	0	0
HEO	84,125	3	30	30	0.9	75,713	0.9	75,713
SEO	93,800	3	25	25	0.75	70,350	0.75	70,350
Gradd 7	115,988	1	25	25	0.25	28,997	0.25	28,997
Cyfanswm Amser		14.6			7.3		2.25	
Cyfanswm Cost						575,396		199,415

Tabl 2. Tabl i ddangos amcangyfrif y gost ar gyfer prosesu swmp disgwylidig y ceisiadau. Mae taliadau prosesu SSCL a chostau NIAB ar gyfer cynnal a chadw VTS hefyd wedi'u cynnwys.

Costau prosesu SSCL	£23,751
Cost Cynnal a Chadw VTS NIAB	£46,440
Cost Flynyddol GB/NI VL	£575,396
Cost Flynyddol PBR	£199,415
Cyfanswm Costau Blynyddol GB/NI VL a PBR	£845,002

Tabl 3. Tabl i ddangos sut cyfrifwyd y ffi weinyddu newydd ar y cyd ar gyfer GB/NI VL a PBR (cyfanswm y gost flynyddol wedi'i rannu â nifer y ceisiadau a ragfynegir). Mae'r gost fesul cais wedi'i thalgrynnu i fyny i bennu'r ffi weinyddu newydd o £598 gan fod cryn ansicrwydd o hyd ynghylch swmp y ceisiadau a ragfynegir. Mae nifer y ceisiadau a ragfynegir ar gyfer GB/NI VL a PBR yn defnyddio nifer presennol ceisiadau NL ar gyfer rhywogaethau amaethyddol i ragfynegi nifer y ceisiadau PBR ar gyfer pob grŵp o gnydau (amaethyddiaeth, llyisiau, planhigion addurnol a ffrwythau) o'u cyfrannau priodol o geisiadau PVR yr UE. Mae hyn yn tybio y bydd ceisiadau PBR y DU yn y dyfodol ar gyfer pob grŵp o gnydau yn yr un gyfran ag ar gyfer PVR yr UE. Bydd costau'n cael eu hadennill yn llawn gan dybio bod y swmp a ragfynegir yn weddol gywir.

Mae dadansoddiad llawn o'r rhagfynegiadau hyn ar gael dim ond i chi ofyn.

Cyfanswm Costau Blynyddol GB/NI VL a PBR	£845,002
Amcangyfrif o swmp y ceisiadau	1413
Cost fesul cais GB/NI VL a PBR	£598
Ffi weinyddu ar y cyd GB/NI VL a PBR	£598

Tabl 4. Tabl i ddangos y ffi weinyddu newydd ar y cyd rhwng GB/NI VL a PBR.

	Ffi Gyfredol (£)	Ffi Newydd (£)	% Cynnydd
Ffi weinyddu ar y cyd GB/NI VL a PBR	450	598	32.9%

(2) Cynyddu'r ffi weinyddu ar gyfer VCU.

Fel rhan o'r broses ymgeisio i ychwanegu cnwd amaethyddol at GB/NI VL, rhaid profi'r amrywogaeth planhigyn arfaethedig i gadarnhau a oes gwerth boddhaol iddo ar gyfer ei dyfu neu ei ddefnyddio (VCU). Mae bron pob prawf perfformiad VCU yn cael ei gynnal gan sefydliadau'r diwydiant drwy gontractau sy'n cael eu dyfarnu ar sail gystadleuol drwy dendr.

Mae angen cynyddu ffi weinyddu VCU 3% (gweler Tabl 7) er mwyn adennill costau (cymwys) yn llawn yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi ar reoli arian cyhoeddus. Bydd y ffi newydd yn cynnwys costau staff, ffioedd rheolaeth dechnegol VCU NIAB, ffioedd rheolaeth dechnegol VCU Biomathematics and Statistics Scotland (rhan o Sefydliad James Hutton) (BioSS), a chostau prosesu SSCL (gweler Tabl 5 a Thabl 6).

Ffioedd Rheolaeth Dechnegol VCU NIAB

Mae NIAB, o dan Gontract Gwasanaethau Technegol (Lot 4), yn codi tâl ar APHA am ddarparu gwasanaeth adolygu ac adrodd annibynnol ar dreialon VCU a phroffion ymwrthedd i glefydau. Nid oes unrhyw gostau adrannol na chostau eraill yn cael eu hychwanegu at Ffi Rheolaeth Dechnegol VCU NIAB (ac ar hyn o bryd mae'r holl gostau a ganiateir yn cael eu hadennill ar dâl gweinyddol DUS).

Ffioedd Rheolaeth Technegol VCU BioSS

Mae BioSS yn codi tâl ar APHA o dan femorandwm cyd-ddealltwriaeth ar gyfer dadansoddi data.

Costau Prosesu SSCL

Rhodddwyd costau prosesu SSCL ar waith ym mis Ionawr 2021. SSCL yw'r sefydliad sy'n codi anfonebau ac yn derbyn taliadau ar ran APHA (am gost o £12.50 y trafodiad). Yn y gorffennol, roedd costau prosesu SSCL yn cael eu cynnwys o dan orbenion cyffredinol y staff ond maent bellach wedi'u costio'n uniongyrchol.

Tabl 5. Tabl i ddangos amcangyfrif y gost ar gyfer prosesu swmp disgwylidig y ceisiadau VCU. Mae costau staff, ffioedd rheolaeth dechnegol VCU NIAB, ffioedd rheolaeth dechnegol VCU BioSS, a ffioedd prosesu SSCL wedi'u cynnwys. Er mwyn adennill y gost yn llawn, rhaid i gyfanswm y gost ar gyfer prosesu swmp disgwylidig y ceisiadau VCU fod yr un fath â chyfanswm yr incwm o ffi weinyddu'r VCU.

	Ffi Gyfredol (£)	Ffi Newydd (£)
Ffi Rheolaeth Dechnegol VCU NIAB	84,660	87,369
Ffi Rheolaeth Dechnegol VCU BioSS	36,400	36,400
Costau Prosesu SSCL	0	9,650
Cyfanswm Cost	121,060	133,419
Cyfanswm Incwm	127,380	133,419
Ffi weinyddu VCU	165	173
Y swm y rhagwelir y bydd yn cael ei adennill	6,320	0

Tabl 6. Tabl i ddangos sut cyfrifir y ffi weinyddu newydd ar y cyd ar gyfer VCU (cyfanswm cost flynyddol VCU wedi'i rannu ag amcangyfrif o swmp y ceisiadau bob blwyddyn).

Cyfanswm Cost Flynyddol VCU	£133,419
Amcangyfrif o swmp y ceisiadau	772
Cost fesul VCU	£173
Ffi weinyddu VCU	£173

Tabl 7. Tabl i ddangos ffi weinyddu newydd VCU.

	Ffi Gyfredol (£)	Ffi Newydd (£)	% Cynnydd
Ffi weinyddu VCU	165	173	4.8%

Newidiadau i Ffioedd DUS

Fel rhan o'r broses ymgeisio i ychwanegu amrywogaethau planhigion at GB/NI VL neu er mwyn dyfarnu PBR, rhaid profi'r amrywogaeth i sicrhau ei bod yn hynod, yn unffurf ac yn sefydlog (*distinct, uniform, stable* - DUS). Canolfannau cymeradwy sy'n cynnal profion DUS, fel arfer dros gyfnod o ddwy flynedd. Ceir tair canolfan brofi ar gyfer profion DUS ar amrywogaethau amaethyddol a llysiau yn y DU:

- NIAB
- y Sefydliad Bwyd-Amaeth a Biowyddorau (AFBI)
- SASA

NIAB sy'n cynnal yr holl brofion DUS yn y DU ar gyfer planhigion addurnol.

Mae ffioedd profion DUS a ffioedd amrywogaethau cyfeirio yn daladwy am bob math o amrywogaeth arfaethedig a llinell riant a heuwyd ym mhob blwyddyn lle cynhaliwyd prawf, a hynny fel arfer cyn pen tri mis i hau'r hadau. Dim ond un ffi prawf DUS sy'n daladwy ar gyfer ceisiadau GB/NI VL a PBR ar y cyd.

Dyma'r newidiadau:

(3) Cynyddu ffioedd DUS AFBI a'r gost flynyddol ar gyfer porfeydd.

Mae AFBI wedi pennu ffi flynyddol (£350,000) a godir ar APHA bob chwarter.

Mae APHA yn pennu'r prawf DUS a'r ffioedd amrywogaethau cyfeirio, a godir ar ymgeiswyr yn uniongyrchol. Drwy'r taliadau hyn, mae APHA yn ceisio adennill costau (cymwys) yn llawn (i adennill y ffi flynyddol a godir gan AFBI) yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi ar reoli arian cyhoeddus, gan osgoi adennill gormod neu ddim digon o gostau (gweler Tabl 8 a Thabl 9).

Tabl 8. Tabl i ddangos amcangyfrif o'r gost ar gyfer prosesu swmp disgwylidiedig profion DUS AFBI a ffioedd amrywogaethau cyfeirio. Mae'r £144 o dan adennill mor agos at adennill costau llawn ag sy'n bosibl a bydd APHA yn ei ymgorffori.

	Ffi Gyfredol	Ffi Newydd
Cyfanswm nifer y ceisiadau DUS	136	136
Ffi ar gyfer prawf DUS a godir gan APHA	£788	£1,091
Incwm a Ragwelir o Ffi Profion DUS (Ffi ar gyfer Prawf DUS x Cyfanswm y Ceisiadau DUS)	£107,168	£148,376
Nifer yr Amrywogaethau o Borfeydd lle Codir Tâl Blynyddol		
Nifer yr Amrywogaethau o Borfeydd lle Codir Tâl Blynyddol	345	345
Tâl Blynyddol am Borfeydd a Godir gan APHA	£422	£584
Rhagamcan o'r Incwm o Daliadau Blynyddol Porfeydd (Tâl Blynyddol Porfeydd x Nifer yr Amrywogaethau o Borfeydd)	£145,590	£201,480
Tâl Blynyddol AFBI		
Tâl Blynyddol AFBI	£350,000	£350,000
Rhagamcan o'r incwm (Rhagamcan o'r Incwm o Ffi Profion DUS + Rhagamcan o'r Incwm o'r Tâl Blynyddol ar gyfer Porfeydd)	£252,758	£349,856
Rhagamcan o'r swm i'w adennill (Rhagamcan o'r Incwm - Taliadau Blynyddol AFBI)	-£97,242	-£144

Tabl 9. Tabl i ddangos ffi DUS newydd AFBI a'r gost flynyddol ar gyfer porfeydd.

	Ffi Gyfredol (£)	Ffi Newydd (£)	% Cynnydd
Ffi DUS	788	1091	38.5%
Cost Flynyddol ar gyfer porfeydd	422	584	38.4%

(4) Cynyddu ffioedd DUS SASA a ffioedd VCU tatws.

Cafodd ffioedd DUS newydd SASA a ffioedd VCU tatws (gweler Tabl 10) eu pennu gan ddefnyddio data olrhain gweithgarwch dros bum mlynedd rhwng 2015 a 2019 ar yr amser a ddyrannwyd i gynnal gwaith treialu DUS yn SASA ar gyfer cynydau llysiâu ac amaethyddol a gwaith treialu VCU ar datws. Cyfrifwyd yr amser a dreuliwyd ar gyfartaledd fesul ymgeisydd DUS a VCU ar draws y graddfeydd staff a'u cofnodi ym Model Dyrannu Costau (CAM) SASA. Mae hyn yn ystyried yr holl gostau gweithredol a ysgwyddir wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn ac mae'n defnyddio cyfartaledd costau staff Llywodraeth yr Alban ar gyfer 2020/2021.

Tabl 10. Ffioedd DUS SASA ar gyfer tatws, llysiâu a rhai rhywogaethau porthiant, yn ogystal â ffioedd VCU tatws.

Prawf	Cnwd	Ffi Gyfredol (£)	Ffi Newydd (£)	% Cynnydd
DUS	Llysiâu	1,294	1,525	17.9%
	Pys Llysiâu	1,334	1,515	13.6%
	Pys y Maes	1,394	1,575	13.0%
	Swêds/Rwdins	1,010	1,050	4.0%
	Maip Rêp	1,325	1,560	17.7%
	Tatws	451	1,080	139.5%
VCU	Tatws	1,064	2,058	93.4%

Mae SASA yn pennu ffioedd profion DUS ac amrywogaethau cyfeirio a godir ar APHA bob chwarter (gweler Tabl 11).

Tabl 11. Taliadau Newydd Arfaethedig SASA i'w Codi ar APHA

Maes gwaith	Tâl Cyfredol i APHA	Tâl Diwygiedig i APHA	% Cynnydd
Cost Flynyddol Casgliad Amrywogaethau Tatws	£212	£235	11%
Cost Flynyddol Casgliad Amrywogaethau Swêds/Rwdins	£180	£180	Dim newid
Gwirio Amrywogaethau Llysiâu Amatur Newydd †	£10 y sampl	£13 y sampl	30%
Dilysu/Gwirio VCU – Pob cnwd	£100	£103 y cais	3%

Nid yw ffi DUS ar gyfer tatws wedi cynyddu llawer hyd yn oed yn y blynyddoedd cyn yr adolygiad diweddaraf o'r Ffioedd Diwygiedig ar gyfer gwasanaethau GB/NI VL a PBR a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2014. Mae'r ffi newydd wedi gwerthuso'r gost yn fwy cywir gan ystyried costau gweithredu a staff cyfredol, gan fodloni'r targed o adennill costau llawn hefyd. Mae'r ffi DUS ar gyfer tatws yn gystadleuol o'i chymharu â [CPVO](#) a [Bwrdd Amrywogaethau Planhigion yr Iseldiroedd](#), er enghraifft.

Mae'n bosibl i chi gael dadansoddiad llawn o gyfrifiadau SASA ar gyfer ffioedd DUS a VCU tatws dim ond i chi ofyn. Dylid anfon unrhyw ymholiadau at VarietyTesting@sasa.gov.scot.

(5) Cynyddu ffioedd DUS NIAB.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DEFRA a Gweinidogion yr Alban, ar ran y Rheolydd, yr Awdurdodau Priodol a DAERA, at ddibenion [Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion \(Enwi a Ffioedd\) 2006](#), Rheoliad 10 o [Reoliadau Hadau \(Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau\) 2001](#), a Rheoliad 11 o [Reoliadau Hadau \(Rhestrau o Amrywogaethau\) \(Gogledd Iwerddon\) 2020](#) yn y drefn honno, wedi dod i gytundeb gyda NIAB i ddarparu gwasanaethau DUS yn unol â'r Contract Gwasanaethau Technegol (TSC) yn dilyn tendr gystadleuol a gynhaliwyd yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Mae ffioedd DUS NIAB (gweler Tabl 12) yn cael eu cyflwyno yn y TSC o dan Lot 1 ("Contract ar gyfer darparu gwasanaethau profi hynodrwydd, unffurfedd a sefydlogrwydd (DUS) a gwasanaethau cefnogi eraill").

Tabl 12. Cynnydd yn ffioedd DUS NIAB.

	Ffioedd Cyfredol (£)	Ffi Newydd (£)	% Cynnydd
Ydau gaeaf	985.00	1,016.52	3.2%
Ydau gwanwyn	985.00	1,016.52	3.2%
Ffa maes - ffi drefnu*	2,985.00*	3,080.52*	3.2%
Ffa maes - ffi a gyhoeddwyd (50% o'r ffi drefnu)	1,492.50	1,540.26	3.2%
WOSR, rēp porthiant a chēl porthiant	1,755.00	1,811.16	3.2%
Betys siwgr	600.00	619.20	3.2%
Planhigion Addurnol (tai gwydr)	2,250.00	2,322.00	3.2%
Planhigion Addurnol (tu allan)	1,950.00	2,012.40	3.2%

* Ar gyfer Ffa Maes, bydd Defra yn parhau i gefnogi'r gwahaniaeth rhwng y Ffi Drefnu y cytunwyd arni a'r Ffi Profion DUS a gyhoeddwyd, gan ystyried unrhyw newidiadau mewn swmp. Bydd Ffi Profion DUS ar gyfer Ffa Maes oddeutu 50% o'r Ffi Drefnu.



© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir yr wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded, hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn: pvs.helpdesk@apha.gov.uk